



Polisi Casglu Dyledion Teg

Polisi Casglu Dyledion Teg.

1. Cefndir a Chyflwyniad

- 1.1 Pwrpas y Polisi Casglu Dyledion Teg hwn yw sefydlu canllawiau ynglŷn â sut y bydd y Cyngor yn adennill unrhyw ddyledion sy'n ddyledus iddo. Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer dull cyson a sensitif i adennill dyledion ac yn bwysicach na dim, mae'n anelu i gynnig datrysiadau talu ymarferol i gwsmeriaid sydd ag anawsterau talu gan roi ystyriaeth i amgylchiadau personol y cwsmer.
- 1.2 Mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu Polisi Dyledion Corfforaethol sy'n gosod gweithdrefnau safonol ar gyfer casglu dyledion. Mae'r Polisi Casglu Dyledion Teg ar wahân i hyn ac mae'n bennaf yn bolisi sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i gynorthwyo'r rheiny mewn trafferth ariannol oherwydd un ddyled neu amryw o ddyledion i'r Cyngor.

2. Egwyddorion y Polisi

- 2.1 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwmo i gasglu'r holl incwm sy'n ddyledus i'r Awdurdod oherwydd bod hyn yn ffrwd incwm bwysig i gefnogi darpariaeth gwasanaethau i breswylwyr.
- 2.2 Mae yr un mor bwysig i'r Cyngor gydnabod y bydd cwsmeriaid, ar adegau, yn profi cyfnodau ac amgylchiadau yn eu bywydau lle na fyddant yn gallu bodloni eu hymrwymadau ariannol a bydd arnynt angen i'r Cyngor weithio gyda nhw neu eu cynrychiolwyr i ddatrys yr anawsterau talu.
- 2.3 Mae'r Polisi yn ymwneud â rhoi dull cydlynol a chyson ar waith i gasglu'r dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor, gan sicrhau os yw cwsmer yn cysylltu i drafod anawsterau o ran talu y bydd ei amgylchiadau yn cael eu hystyried yn deg ac yn wrthrychol gyda'r bwriad o gytuno ar drefniant talu rhesymol, lleihau camau adennill a gweithio i osgoi costau ychwanegol i'r cwsmer.
- 2.4 Mae'r Polisi hefyd yn cydnabod y dylai casglu dyledion fod yn deg i bawb, yn enwedig y rhai hynny sy'n talu ar amser, ond bod rhai yn gallu osgoi eu rhwymedigaethau talu yn fwriadol drwy oedi talu neu ddewis peidio â gwneud taliad o gwbl. Mewn achosion o'r fath, bydd mesurau cymesur yn cael eu defnyddio i ddatblygu diwylliant talu, tra'n annog y rheiny sydd angen cymorth i gysylltu gyda'r Cyngor mor fuan â phosibl.
- 2.5 Mae'r Polisi'n ymrwmo'r Cyngor i weithredu mewn modd teg wrth gasglu dyledion, gan sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir i adennill dyledion heb eu talu bob amser yn gymesur, cyson a thryloyw.
- 2.6 Yn gryno, fe ddylai'r Polisi sicrhau fod pob cwsmer yn cael ei drin yn deg, fel unigolyn a gyda thosturi mewn achosion o galedi ariannol gwirioneddol.

3. Y Mathau o Ddyled a Gynhwysir yn y Polisi

3.1 Mae'r Polisi Casglu Dyledion Teg yn cynnwys treth y cyngor, rhent y cyngor, gordaliadau budd-dal tai, dyledion personol ac anfasnachol a weinyddir gan y Gwasanaeth Casglu Dyledion Corfforaethol.

4. Cyfathrebu a Chyswllt gyda'r Cyngor

4.1 Bydd cyngor a gwybodaeth bob amser ar gael i gwsmeriaid yn ystod pob cam o'r broses. Bydd y Cyngor yn dangos yn glir pa gamau sy'n cael eu cymryd a pham.

4.2 Bydd y Cyngor hefyd yn egluro i gwsmeriaid beth ddylent ei wneud os nad ydynt yn gallu talu ac yn bwysicach na dim, ble gallant gael cyngor annibynnol ar arian a chefnogaeth gyda phroblemau dyled ehangach.

4.3 Bydd gweithdrefnau uwchgyfeirio bob amser yn rhoi arwydd clir i'r cwsmer o'r cam nesaf ym mhroses adennill y Cyngor yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol ar ben y ddyled.

4.4 Mewn achosion o beidio â thalu, bydd y Cyngor yn hysbysu cwsmeriaid yn ysgrifenedig ac yn eu gwahodd i gysylltu â'r Cyngor yn ystod cam cynnar o'r broses adennill gyda'r bwriad o wneud cytundeb talu os ydynt yn wynebu anawsterau ariannol.

5. Budd-daliadau, Gostyngiadau ac Eithriadau a Chyngor ar Arian

5.1 Bydd y Cyngor yn ceisio hysbysu cwsmeriaid ynglŷn â'u hawl i fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd a budd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd, gostyngiadau ac eithriadau i sicrhau bod hawliadau'n gywir ac nad oes unrhyw un yn talu mwy na sydd rhaid yn gyfreithiol.

5.2 Bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth hygyrch am fudd-daliadau, gostyngiadau, eithriadau a chyngor a chefnogaeth annibynnol ar arian drwy ystod o sianeli cyfathrebu, yn cynnwys taflenni i'r cyhoedd, ad-ddalennau gyda biliau, dogfennau adennill a gwybodaeth i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor.

5.3 Bydd y Cyngor yn hyrwyddo ac yn cyfeirio unigolion at wasanaethau asiantaethau cyngor a chefnogaeth annibynnol ar arian ac yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyngor lleol.

5.4 Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at ddarparu Asiantaethau Cyngor gydag un pwynt cyswllt yn berthnasol i bob maes gwasanaeth er mwyn i faterion allu cael eu trafod a'u datrys yn gyflym ac i reoli achosion o ddyledion lluosog yn well.

6. Cyfrifoldebau Cwsmeriaid

6.1 Disgwylir i gwsmeriaid sydd ag arian yn ddyledus i'r Cyngor gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda chwsmeriaid fel y nodir yn y polisi hwn ac mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y rhai hynny sydd mewn dyled yn cyfrannu at y broses hon drwy gadw at y canllawiau canlynol:

- o Talu symiau'n brydlon i sicrhau bod y Cyngor yn eu cael erbyn y dyddiad talu
- o Dilyn y cyfarwyddiadau a ddarperir ynglŷn â gwneud taliadau er mwyn sicrhau bod taliadau yn cael eu credydu'n gywir
- o Hysbysu'r Cyngor ar unwaith o unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar y swm i'w dalu neu'r gallu i dalu
- o Hysbysu'r Cyngor yn brydlon os oes newid i gyfeiriad o Cysylltu â'r Cyngor ar unwaith os oes anawsterau o ran talu o Parchu'r Cyngor, ei weithwyr a'i asiantiaid ac ymateb iddynt yn barchus

7. Trefniadau ar gyfer Ad-dalu Dyledion

7.1 Trwy gydol y broses ad-ennill dyled, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar yr angen am gyswllt personol â'r cwsmer.

7.2 Os nad yw cwsmer yn gallu talu dyled sy'n ddyledus i'r Cyngor, fe ddylai gysylltu â'r Cyngor i drafod ei sefyllfa yn y lle cyntaf.

7.3 Ar ôl i'r cwsmer gysylltu â'r Cyngor am yr anawsterau sydd ganddo o ran gwneud y taliadau, bydd y Cyngor yn ceisio sefydlu cynllun ad-dalu sy'n ystyried:

- o egwyddorion y polisi dyledion teg
- o gallu'r cwsmer i dalu mewn perthynas â'r balansau sy'n weddill a chost adennill
- o yr angen i ad-dalu'r ddyled o fewn amserlen resymol o bydd gweithdrefnau safonol yn cael eu dilyn, gan roi ystyriaeth i incwm a gwariant y cwsmer - wrth gynnal asesiad manwl o sefyllfa ariannol y cwsmer, defnyddir ffurflen incwm a gwariant sydd yn debyg i'r ffurflen a ddefnyddir gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at fesur gwariant yn erbyn Datganiad Ariannol Cyffredin y Biwro i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio o ran asesu amgylchiadau ariannol y cwsmer.

7.4 Bydd y Cyngor yn ceisio datrys pob ymholiad a gwneud trefniadau talu yn ystod y cyswllt cyntaf, yn enwedig yn achos dyledion sengl sy'n ddyledus i'r Cyngor. Bydd trefniadau talu yn cael eu cadarnhau, gan osod y rhwymedigaethau talu y bydd disgwyl i'r cwsmer gadw atynt.

- 7.5 Bydd y Cyngor yn ceisio cymaint o wybodaeth â phosibl am amgylchiadau'r cwsmer er mwyn gwneud yr asesiad gorau o'i allu i dalu a phenderfynu ar drefniant talu realistig. Mae'n debygol y bydd angen mwy o wybodaeth os yw asesiad cychwynnol yn dangos nad yw'r cwsmer yn gallu talu'r ddyled dros gyfnod byr ac ni fydd y ddyled yn cael ei had-dalu'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r arian yn ddyledus.
- 7.6 Pan fo cwsmer yn gwrthod datgelu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei hystyried yn hanfodol o ran asesu ei allu i dalu, ni ellir mynd i gytundeb talu.
- 7.7 Bydd cwsmeriaid a/neu asiantaethau cyngor sy'n gweithio ar ran y cwsmer yn cael eu hannog i hysbysu'r Cyngor o ddyledion lluosog a chytuno ar gynllun talu cydlynol sy'n cynnwys yr holl ddyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Yn eu tro, bydd Swyddogion y Cyngor yn cydweithio â'i gilydd i gytuno ar un cynllun talu ac i sicrhau bod yr holl ad-daliadau'n gynaliadwy.
- 7.8 Er y bydd y manteision o gytuno ar gynllun talu cydlynol yn cael eu hegluro i'r cwsmer, mae'r Cyngor yn cydnabod fod gan y cwsmer yr hawl i ddelio â dyledion ar wahân os yw'n dewis gwneud hynny.
- 7.9 Bydd cynlluniau talu ar gyfer dyledion lluosog sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu dylunio i ganiatáu i gwsmeriaid wneud taliadau tuag at ddyledion blaenoriaeth sy'n ddyledus i'r Cyngor yn gyntaf (taliadau rhent a threth y Cyngor) ac yna tuag at y dyledion eraill sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mewn achosion priodol, lle mae problemau dyled ehangach, bydd y Cyngor yn cyfeirio cwsmeriaid at asiantaethau cyngor allanol.
- 7.10 I gwsmeriaid sy'n mynd i gytundebau un taliad ar gyfer dyledion lluosog sy'n ddyledus i'r Cyngor, oni bai bod ad-daliadau'n cael eu pennu drwy orchmynion llys neu gyfraddau didyniadau o fudd-daliadau, bydd ad-daliadau fel arfer yn cael eu dosbarthu mewn cyfran uniongyrchol i'r flaenoriaeth ac yna dyledion is sydd heb eu talu i bob maes gwasanaeth.
- 7.11 Os nad yw'r cwsmer yn gallu bodloni'r lefel ad-dalu angenrheidiol, bydd y Cyngor yn gweithio tuag at ddefnyddio ffurflen incwm a gwariant yn defnyddio datganiad ariannol cyffredin i gael mynediad at sefyllfa ariannol y cwsmer.
- 7.12 Os nad yw'r cwsmer yn cysylltu, bydd y Cyngor yn cysylltu â'r cwsmer yn ysgrifenedig i nodi'r canlyniad o beidio â thalu'r ddyled. Bydd y Cyngor yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltu â'r Cyngor cyn gynted â phosibl i drafod y mater.

8. Taliadau Hwyr neu Daliadau a Fethwyd

- 8.1 Os nad yw'r cwsmer, am ba bynnag reswm, yn gallu gwneud taliad, bydd yn cael ei annog i gysylltu â'r Cyngor cyn y dyddiad y mae i fod i dalu.
- 8.2 Os yw'r cwsmer a'r Cyngor wedi cytuno ar gytundeb talu ond nid yw'r Cyngor wedi derbyn taliad yn unol â'r cytundeb, cyn ystyried camau pellach i adennill y ddyled sydd heb ei thalu bydd y Cyngor yn ysgrifennu at y cwsmer i wneud cais am y symiau sy'n ddyledus gan egluro'r goblygiadau o beidio â thalu.
- 8.3 Bydd y Cyngor hefyd yn annog y cwsmer i gysylltu eto i drafod unrhyw anawsterau o ran talu neu newid mewn amgylchiadau. Rhoddir cyfnod rhesymol o amser i'r cwsmer i sicrhau bod y cytundeb talu yn gyfredol neu i wneud cyswllt pellach â'r Cyngor.
- 8.4 Os yw cwsmer yn methu â chadw cytundeb talu'n gyfredol neu os yw'n methu cadw at gytundeb talu'n gyson, bydd y Cyngor yn ystyried cymryd camau pellach i adennill y ddyled sydd heb ei thalu ac ni fydd cytundeb talu pellach yn cael ei ystyried oni bai bod amgylchiadau'r cwsmer wedi newid yn sylweddol.

9. Camau Gorfodi

- 9.1 Bydd y Cyngor yn defnyddio Gwasanaethau Adennill Dyledion mewnol ac allanol i adennill dyledion lle mae cwsmeriaid wedi methu â thalu'n gyson.
- 9.2 Bydd defnyddio beiliod i adennill dyled ond yn cael ei ystyried gan y Cyngor pan fydd pob ymdrech resymol arall i adennill y ddyled wedi methu. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cyngor ond yn defnyddio sefydliadau sydd ag enw da ac sydd wedi cael eu penodi'n briodol dan gontract gyda'r Cyngor drwy ymarfer caffael llawn.
- 9.3 Bydd pob sefydliad asiant gorfodi yn cydymffurfio â'r safonau Cenedlaethol a osodwyd ar gyfer gweithgareddau gorfodi.
- 9.4 Bydd tîm gorfodi mewnol y Cyngor ac unrhyw ddarparwyr gorfodi allanol yn sicrhau bod gan bob asiant gorfodi wybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r holl ddeddfwriaethau, cyfraith achosion a phwerau perthnasol, a'u bod bob amser yn gweithredu'n unol â nhw.
- 9.5 Mae'n rhaid i asiantau gorfodi a gweithwyr, contractwyr ac asiantau'r cwmni gorfodi fod yn ymwybodol eu bod yn cynrychioli'r Cyngor wrth ymdrin â chwsmeriaid. Byddant bob amser yn ymddwyn mewn modd cyfrifol, proffesiynol a chwrtais a byddant yn ymwybodol bod eu hymddygiad, gwedd ac agwedd yn dylanwadu'n fawr ar lwyddiant y broses adennill dyledion.
- 9.6 Bydd yr asiantau gorfodi bob amser yn arfer eu barn broffesiynol i gyfeirio'n ôl at y Cyngor os ydynt yn ystyried, oherwydd amgylchiadau personol y cwsmer, y byddai'n amhriodol i symud ymlaen i Gymryd Rheolaeth o Nwyddau.

10. Monitro ac Adolygu

10.1 Cynigir bod gweithgor Dyledion Teg yn cael ei sefydlu i fonitro effeithlonrwydd y polisi hwn. Bydd y grŵp yn cynnwys uwch reolwyr o fewn y Cyngor sy'n gyfrifol am adennill dyledion ac arbenigwyr adennill dyledion o'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

10.2 Bydd y grŵp yn cwrdd bob chwarter i ddechrau i drafod gweithrediad y polisi ac wedyn i adolygu a diweddau'r polisi pan fo'r angen yn codi.